Adroddiad Blynyddol 2009-10

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru yn ceisio diwallu anghenion y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ledled Cymru drwy ystod o wasanaethau uniongyrchol i blant, yn ogystal â drwy ddarparu cefnogaeth anuniongyrchol drwy waith lobïo a dylanwadu gwleidyddol.

Er mwyn cefnogi ein gwaith uniongyrchol ac er mwyn ategu'r cyllid statudol a gawn i ddarparu ein gwasanaethau, rydym yn ymdrechu i godi arian drwy ein siopau a'n gweithgareddau codi arian. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-10.

Rydym wedi parhau i ddarparu ein gwasanaethau uniongyrchol i blant i: blant anabl a'u teuluoedd, gofalwyr ifanc, teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc ddigartref, plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu a'u mabwysiadu a gofalwyr y plant hynny, plant a phobl ifanc y cam-fanteisiwyd yn rhywiol arnynt a phlant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol – ystod eang o waith, a byddwn yn cyflwyno enghreifftiau o'r gwaith hwn drwy'r adroddiad.

Pobl ifanc o Clebran, un o wasanaethau cefnogi Barnardo's sy'n galluogi plant anabl i ddylanwadu ar lunwyr penderfyniadau, a fu'n perfformio yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cawsant y fraint o gwrdd â Syr Terry Waite yn y digwyddiad.



'Fe ddes i'n ôl i'r ysgol ar ôl colli aelod o fy nheulu. Doedd gen i ddim cliw sut oedd delio â beth oedd wedi digwydd, ond gofynnodd un o'r athrawon i mi os hoffwn i gael cwnsela. Doeddwn i ddim yn gwybod sut byddai'n fy helpu, ond pan lenwais y ffurflenni roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi gwneud y penderfyniad iawn. Roedd fy sesiwn gyntaf gyda'r cwnselydd yn neis iawn ac roedd yn gwneud i mi deimlo fy mod i wedi dewis gwneud hyn i fy helpu i, ac roedd yn fy helpu i. Roedd y cwnselydd bob tro'n holi sut roeddwn i'n teimlo. Roedden ni'n siarad am lot o bethau am fy nheulu; roeddwn i'n hapus rai dyddiadau ond yn drist ddyddiau eraill, ond fe wnes i sylweddoli mai dyma'r penderfyniad gorau wnes i erioed. Roedd fy nheimladau at bobl yn ddryslyd iawn ond nawr maen nhw i gyd yn fy nghefnogi gyda'm dewisiadau. Dwi'n ddiolchgar iawn am yr hyn wnaeth y cwnselydd i mi; roedd yno i siarad â mi a fy arwain i'r cyfeiriad iawn a nawr rwy'n cael hwyl ar fy ngwaith ysgol.'

Person ifanc a gafodd fudd o gwnsela yn yr ysgol drwy Wasanaeth Heol Marlborough Barnardo's.

Gair gan y Cyfarwyddwr

Rydym mewn cyfnod dyrys ac mae'r toriadau a ddisgwylir mewn cyllid wedi'u hanelu at y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Gallai'r effaith ar blant a phobl ifanc achosi niwed ar gyfnod yn eu bywydau y mae angen cefnogaeth arnynt yn fwy nag erioed. Mae ymchwil wedi dangos bod plant sy'n cael eu geni yng Nghymru yn fwy tebygol o fyw o dan y llinell tlodi na'u cyfoedion yng ngweddill y DU.

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae ar Barnardo's Cymru angen cyflawni ei ddiben craidd, sef gweithio gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a chynnig y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn er mwyn iddynt allu gweddnewid eu bywydau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau o'r gwahaniaeth gall cefnogaeth ei wneud, a charwn ddiolch i'r staff, y gwirfoddolwyr, y partneriaid cyllido a'r cyhoedd sy'n ein cefnogi'n ariannol, sydd wedi ein helpu i wneud y gwahaniaeth hwnnw a gweddnewid bywydau plant.

Yvonne Rodgers
Cyfarwyddwr,
Barnardo's Cymru

Gair gan y Cadeirydd

Bûm yn ymweld ag archifau Barnardo's yn ddiweddar ac yn pori dros hen gyfrolau llychlyd o hanesion achosion. Cefais fy nharo gan hanes bachgen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn ddigartref ar ôl ffraeo gyda'i dad. Cafodd rywle i fyw a phrentisiaeth gan Barnardo's a oedd yn ei baratoi am fywyd.

Mewn cyfarfod diweddar a gynhaliwyd yn ein Partneriaeth BAYS yn Abertawe, cefais gyfle i gwrdd â dyn ifanc a oedd wedi bod yn byw ar y stryd ar ôl ffraeo gyda'i dad. Cafodd fwyd, dillad a llety gan BAYS ac mae'r prosiect wedi'i gefnogi i gael prentisiaeth fel mecanic ceir, gan ei baratoi am fywyd.

Mae angen Barnardo's i ddelio â phroblemau newydd, ond sydd eto yn oesol. Gyda chymorth gwerthfawr pawb sy'n ymwneud â Barnardo's Cymru, rydym yn dal i gredu mewn plant a'u paratoi am fywyd.

Eleanor Williams
Cadeirydd, Barnardo's Cymru
Y Pwyllgor Cenedlaethol

Stori Jessica

Annwyl John

Fi sydd yma... ti'n gwybod, y ferch yna wnest ti ei helpu, Jessica! Y tro cyntaf i ni gwrdd roeddwn i'n meddwl mai bwystfil oeddet ti yn ceisio helpu'r gwasanaethau cymdeithasol i fynd â fy mab i ffwrdd oddi wrthyf fi a minnau yn fy arddegau. Mae cwpl o flynyddoedd wedi mynd heibio ers hynny ac rwy'n gwybod nawr mai'r cyfan roeddet ti'n ceisio ei wneud oedd fy helpu i fod yn fam dda a pheidio â gadael i fy magwraeth i effeithio ar fy mab a'r ffordd roeddwn i'n ei fagu ef.

Roeddwn i mewn lle drwg pan gyrhaeddais i Barnardo's am y tro cyntaf, ond roeddet ti'n credu y gallwn i fod yn fam dda. Roeddet ti wedi fy helpu a fy arwain drwy gyfnodau anodd yn fy mywyd a fy helpu i roi tro ar fyd. Roeddet ti wedi fy helpu i fod y person ydw i heddiw a'r fam ydw i heddiw hefyd. Heb Barnardo's, mae'n debyg na fyddwn i erioed wedi deall sut roedd beth oedd yn digwydd i mi yn effeithio ar fy mhlant fy hun. Roeddet ti a'r tîm wedi rhoi'r hyder i mi gredu fy mod i'n gallu bod yn fam dda. Cyn hynny, doeddwn i ddim yn meddwl fy mod i'n haeddu bod yn fam i neb.

Dwi wedi ceisio ysgrifennu'r llythyr hwn miloedd o weithiau, ond roedd hi'n anodd dod o hyd i'r geiriau iawn. Roeddwn i eisiau egluro cymaint rwyt ti wedi fy helpu i. Dwi'n dal i ddefnyddio'r technegau disgyblu cadarnhaol a negyddol a'r siartiau gwobrau roedd Barnardo's wedi fy nysgu i.

Heb help y tîm, yn y bôn, dwi'n gwybod na fyddai fy mab gyda mi nawr, a heb dy help di yn fy arwain a fy annog, fyddai fy merch i ddim gyda mi chwaith. Dwi'n gobeithio bod barn pobl ohonof fi fel rhywun anobeithiol wedi newid, oherwydd dwi wedi newid! Dwi wedi gweithio'n galed i wneud fy nghartref yn rhywle sefydlog a llawn cariad i'r ddau ohonyn nhw – doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd hynny cynt!

O'r diwedd mae gen i'r berthynas roeddwn i ei heisiau gyda fy mhlant – o'r diwedd dwi'n fam go iawn ac wedi tyfu i fyny... arrgh! Diolch o galon, byddai'n ddiolchgar i ti am byth.

Jessica

Gwaith Barnardo's yng Nghymru

Gwasanaethau Plant

Ynys Môn	1. Gwasanaeth Teulu Gwledig – Llangefni
Gwynedd	2. Caban Bach – Blaenau Ffestiniog
	3. Amser Ni – Caernarfon
Conwy/Sir Ddinbych	4a. Cyfle – Henllan
	4b. Barnardo's Cyfle Care Leavers
Sir y Fflint	5. Gofalwyr Ifanc a Theuluoedd sy'n Bwysig Sir y Fflint – Penarlâg a Bwcle
Wrecsam	6. Partneriaeth Compass – Cyngor a Llety – Cymorth i Bobl sy'n Gadael Gofal – Tenantiaeth a Chymorth i Deuluoedd
Powys	7a. Rhieni ar Waith a Chyfarfodydd Grŵp Teulu
	7b. Gwasanaeth Cymorth Dwys Amlasiantaeth Barnardo's (BMISS)
Ceredigion	Dim gwasanaeth
Sir Benfro	8. Cyswllt Teulu Sir Benfro – Doc Penfro
Sir Gaerfyrddin	9. Cyswllt Teulu a Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin – Llanelli
Abertawe	10. Mae Plant yn Bwysig – Abertawe
	11. Partneriaeth BAYS – Gadael Gofal – Llety â Chymorth – Digartrefedd Pobl Ifanc
Castell-nedd Port Talbot	12. Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot – CHiP – Cynnwys Teuluoedd – Rhieni'n Rhannu
Pen-y-bont ar Ogwr	13. Taith (yn ymdrin â saith awdurdod lleol)
Bro Morgannwg	14a. Cysylltiadau Cymunedol
Caerdydd	14b. Cysylltiadau Cymunedol
	15a. Mabwysiadu a Maethu (De Cymru)
	15b. Mabwysiadu a Maethu (Gogledd Cymru)
	16. Teuluoedd Trelái
	17. Stryd Neville
	18. Seraf (Cymru gyfan)
	19a. Partneriaeth Heol Marlborough – Tai â Chymorth i Bobl Ifanc Sengl – Teuluoedd Ifanc Caerdydd – Caterpillar
Rhondda Cynon Taf	20. Glyncoch
Merthyr Tudful	21. Partneriaeth Merthyr – Gwasanaeth 16+ – Gofalwyr Ifanc – Blynyddoedd Cynnar a'r Gymuned – Cymorth i Deuluoedd
Caerffili	22a. Gofalwyr Ifanc Caerffili – Rhisga
	22b. Mentora a Chyfeillio – Rhisga (Daeth i ben yn Ebrill 2009)
Blaenau Gwent	23. Gwasanaeth Blaenau Gwent – Glynebwy
Torfaen	24. Teuluoedd yn Gyntaf Torfaen – Blaenafon
Sir Fynwy	Dim gwasanaeth
Casnewydd	19b. Partneriaeth Heol Marlborough – Teuluoedd Ifanc Casnewydd – Out There

Canghennau Adwerthu

1. Aberdâr (2 gangen)
2. Y Fenni
3. Abergele (wedi cau ym Medi 2008)
4. Aberystwyth
5. Bangor
6. Bargoed
7. Y Coed-duon
8. Pen-y-bont ar Ogwr
9. Brynmawr
10. Caernarfon
11. Caerdydd
12. Aberteifi
13. Caerfyrddin
14. Bae Colwyn
15. Glynebwy
16. Hwlffordd
17. Llandudno
18. Llangollen
19. Llanelli
20. Llanrwst
21. Malpas (Casnewydd)
22. Aberdaugleddau
23. Yr Wyddgrug
24. Castell-nedd
25. Casnewydd
26. Y Drenewydd
27. Pontypridd
28. Porthmadog
29. Prestatyn
30. Y Rhyl
31. Abertawe
32. Wrecsam

Grwpiau Cynorthwywyr Barnardo's

1. Y Fenni
2. Rhydaman
3. Y Bermo
4. Y Barri
5. Biwmares
6. Pen-y-bont ar Ogwr
7. Cas-gwent
8. Y Bont-faen
9. Grangetown – Caerdydd
10. Hwlffordd
11. Mynyddygarreg a Chydweli Kidwelly
12. Trefyclo
13. Yr Wyddgrug
14. Arberth
15. Castell-nedd
16. Porth-cawl
17. Llanelwy

Grwpiau Proffesiynol Barnardo's

18. Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Ifanc Caerdydd
19. Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Hwlffordd
20. Grŵp Gweithwyr Proffesiynol Ifanc Abertawe

Grwpiau 'Cyfeillion' Barnardo's

21. Sir Gaerfyrddin
22. Partneriaeth Heol Marlborough
23. Caerffili



Defnyddwyr ein gwasanaethau

Yn ystod 2009-10, roedd Barnardo's Cymru wedi helpu dros 7,600 o blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws ein 42 o wasanaethau mewn 20 o 22 awdurdod lleol Cymru.

Rydym wedi darparu gwasanaethau craidd ym meysydd: lleoliadau â theuluoedd, egwyliau byr i blant a phobl ifanc anabl, gwasanaethau cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc ddigartref, teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi/sydd ar fin chwalu a gofalwyr ifanc. Ar ben hynny, rydym wedi parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi:

- dioddef cam-fanteisio rhywiol
- niweidio eraill yn rhywiol
- arwain ffyrdd o fyw peryglus ar y 'stryd'
- dioddef effaith camddefnyddio sylweddau
- gweld eu rhieni yn y system cyfiawnder troseddol
- gorfod ymdopi â phrofedigaeth.

Oed defnyddwyr ein gwasanaethau



Mae Barnardo's Cymru yn ceisio cefnogi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau lleol. O ganlyniad i hynny rydym yn gweithio gyda llawer iawn o bobl o grwpiau lleiafrifoedd penodol, gan gynnwys plant yn y system 'derbyn gofal', plant ar y gofrestr amddiffyn plant, plant o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn a phlant a phobl ifanc anabl. Eleni rydym wedi gweithio gyda 10 y cant yn fwy o blant ar y gofrestr amddiffyn plant o'i gymharu â'r llynedd.

Plant ar y gofrestr amddiffyn plant	654
Plant anabl	1,189
Pobl ethnigrwydd heb fod yn wyn	310
Plant yn y system 'derbyn gofal'	779

Canlyniadau i blant a theuluoedd

Cyhoeddwyd adroddiad Agwedd Gyhoeddus ym mis Mawrth 2009 a oedd yn asesu effeithiolrwydd cymharol elusennau o ran dangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth drwy eu gwaith. Cafodd 20 o elusennau eu hasesu, a Barnardo's oedd y trydydd uchaf, a'r uchaf un o blith elusennau plant.

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi parhau i ddefnyddio 'dull canlyniadau' yn ein gwasanaethau plant ynghyd â system monitro gysylltiedig i fesur effeithiolrwydd ein gwaith gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Cafodd y model hwn ei addasu rhywfaint yn Barnardo's Cymru i ddangos y 'gwahaniaeth a wnaed' yng nghyd-destun blaenoriaethau Gweithredu'r Hawliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol o rai o'r gwahaniaethau mae ein gwasanaethau wedi'u gwneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd dros y flwyddyn. Bydd pawb rydym wedi gweithio gyda nhw wedi cytuno ar nifer o ganlyniadau targed gyda ni a oedd yn benodol i'w hamgylchiadau personol adeg yr ymyriad. Mae'r canlynol yn dangos cyfanswm canlyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth a gafodd eu mesur ar gyfer yr holl blant, pobl ifanc a theuluoedd roeddem wedi gweithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn.

Nod: Mwynhau'r iechyd gorau posibl heb orfod dioddef cael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio

Roedd sgôr 1,856 o ganlyniadau a oedd yn ymwneud â'r nod hwn wedi gwella ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd sgôr 1,301 o ganlyniadau a oedd yn berthnasol i'r nod hwn wedi aros ar yr un lefel – a oedd yn gadarnhaol ar gyfer nifer o'r bobl roeddem wedi gweithio gyda nhw, a dim ond 282 o ganlyniadau gafodd sgôr is. (Gallai sgôr is fod oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys dirywiad naturiol cyn i welliannau ddatblygu, neu welliannau mewn canlyniadau eraill ond gostyngiad yn y rheini a oedd yn berthnasol i'r nod hwn.)

'Mae Barnardo's yn dda ac yn rhoi hoe i mi oddi wrth ofalu am mam. Os oes angen help arna i, dwi'n gallu ffonio Barnardo's a byddan nhw'n gwrando.'

Gofalwr ifanc;
Gwasanaethau Caerffili

Nod: Bod â chymuned ddiogel sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
Roedd pobl a gafodd eu cefnogi i gyflawni canlyniadau mewn perthynas â'r nod hwn wedi cynhyrchu 1,103 o ganlyniadau gwell, roedd 480 wedi cynnal eu sgôr ac roedd 112 o ganlyniadau wedi cael sgôr is.

'Dwi'n gallu ei gadael hi rŵan heb iddi ypsetio; rydyn ni wedi llwyddo i'w chael hi allan o'i chlytiau hefyd. Cyn y cwrs, roeddwn i'n teimlo ein bod ni mewn twnnel du – mae hi'n nefoedd rŵan!'

Rhiant a oedd yn dilyn Cwrs Magu Plant y Blynyddoedd Rhyfeddol, Caban Bach

Nod: Cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
Roedd ein cefnogaeth wedi cynhyrchu sgôr uwch ar 135 o ganlyniadau a oedd yn berthnasol i'r nod hwn dros y flwyddyn. Roedd sgôr 123 o ganlyniadau wedi aros yr un fath ac roedd 44 wedi disgyn.

'Roedd e'n brofiad grêt. Roedd e' wedi fy helpu i ddychwelyd i fyd gwaith a byddwn i'n fwy na pharod i gymryd rhan 'to.'

Person ifanc,
Partneriaeth BAYS

Nod: Cael cyfle i chwarae, hamddena, a chymryd rhan mewn chwaraeon
Roedd sgôr 382 o ganlyniadau a oedd yn ymwneud â chael cyfle i chwarae, hamddena a chymryd rhan mewn chwaraeon wedi codi, roedd sgôr 421 o ganlyniadau wedi aros yr un fath, ac roedd sgôr 103 o ganlyniadau wedi disgyn dros y flwyddyn.

'Roedd yn rhoi rhyddid ac annibyniaeth i Alex a'r cyfle iddi fwynhau ei hun heb orfod bod gyda ni.'

Rhiant person ifanc anabl, gwasanaeth Blaenau Gwent – cynllun chwarae haf

Nod: Yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch a'u hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
Yng nghyswllt y nod hwn roedd sgôr 251 o ganlyniadau wedi gwella, roedd sgôr 183 o ganlyniadau wedi aros yr un fath ac roedd sgôr 45 o ganlyniadau wedi disgyn.

'Roedd hi'n hawdd siarad am bethau; doeddwn i ddim yn teimlo bod y naill ochr na'r llall yn codi ofn arnaf fi ac roeddwn i'n gallu siarad yn agored.'

Modryb ac ewythr Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu – Partneriaeth Barnardo's Castell-nedd Port Talbot

Nod: Yn osgoi cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd tlodi
Ledled Cymru, roedd sgôr 279 o ganlyniadau a oedd yn berthnasol i'r canlyniad hwn wedi gwella, roedd 146 wedi aros yr un fath ac roedd sgôr 48 o ganlyniadau wedi disgyn.

'Mae wedi fy helpu i'n fawr iawn, oherwydd dwi wedi cael llawer mwy o hyder gyda'r babi a dwi wedi cwrdd â phobl newydd sydd yn yr un sefyllfa â fi neu sydd mewn sefyllfa waeth.'

Mam ifanc, Partneriaeth Heol Marlborough – Gwasanaeth Cefnogaeth i Rieni Ifanc

Person ifanc gyda'i ofalwyr egwyliau byr, wedi'u recriwtio gan Barnardo's Cymru

Polisi, ymchwil a datblygu

Mae Uned Polisi, Ymchwil a Datblygu Barnardo's Cymru yn dylanwadu ar bolisïau ac arferion drwy waith ymgyrchu a lobïo. Rydym yn:

- darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth y Cynulliad ac ymchwiliadau Pwyllgorau
- cynnal cyfarfodydd gyda gwleidyddion a gweision sifil a pharatoi papurau briffio ar eu cyfer
- cynnal derbyniadau a seminarau i hyrwyddo ein hymchwil a'n harferion
- hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhrosesau Llywodraeth y Cynulliad
- cydweithio â sefydliadau eraill i lobïo Llywodraeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith dylanwadu wedi ein gweld ni'n lobïo dros nifer o feysydd, gan gynnwys:

- tlodi plant
- gwasanaethau cadeiriau olwyn i blant a phobl ifanc
- iechyd meddwl
- gwrth-fwlio
- plant carcharorion
- plant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau
- cyfiawnder ieuenctid
- lleoliadau ar gyfer plant sy'n 'derbyn gofal'

Gwaith pobl ifanc anabl o Wasanaeth Cysylltiadau Cymunedol Caerdydd a Bro Morgannwg. Cawsant eu helpu gan artist lleol i ddylunio'r murlun hwn a gafodd ei arddangos mewn oriel gelf leol.

- camfanteisio'n rhywiol ar blant
- masnachu mewn plant.

Er mwyn datblygu gwasanaethau newydd ac arloesol, mae'r Uned Polisi, Ymchwil a Datblygu yn dod o hyd i fodelau o arfer da mae modd eu hyrwyddo drwy ein ceisiadau am gyllid a thendrau. Yn ystod cyfnod o ddirwasgiad economaidd, rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau sy'n gweithio i blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed ac sy'n cynnig gwerth am arian, ond byddwn yn dal ati i ymgyrchu dros y gwasanaethau gorau posibl i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd agored i niwed rydym yn gweithio gyda nhw.

Y Cyfryngau a chyfathrebu

Rydym yn parhau i ymwneud â'r cyhoedd a meithrin eu cefnogaeth, o ran codi arian a chefnogi ein gwaith ymgyrchu. Y llynedd gwelsom dwf mewn sylw darlledu ac yn y cyfryngau. Roedd cyfanswm gwerth hysbysebu'r sylw hwn i Barnardo's yn £826,807 ac amcangyfrifir bod y cylchrediad yn 23,616,536

Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwaith cyfryngau wedi cefnogi:

- gwaith dylanwadu yn y Cynulliad Cenedlaethol gan lansio ffilmiau DVD ar ofalwyr ifanc ac adroddiad tlodi Barnardo's 'Below the Breadline' yn cael sylw da
- hyrwyddo materion yn ymwneud â thlodi plant yn ymatebion y cyfryngau i storïau ar y Gyllideb, ffigurau diweithdra a newidiadau i fudd-daliadau
- Roedd y nifer uchaf bosibl o redwyr wedi cofrestru ar gyfer Hanner Marathon Caerdydd (11,000 o redwyr) yn dilyn ymgyrch ddwys yn y cyfryngau. Ar y diwrnod, cafodd y digwyddiad lawer o sylw ar newyddion rhanbarthol y BBC ac ITV ac ar orsafoedd radio lleol. Cafodd rhaglen ddogfen am y ras ei darlledu ar Channel 4 ac yn Gymraeg ar S4C.

- Ymgyrch hysbysebu 'Turn Around' Barnardo's – roedd gweithgarwch cyfryngau yn y wasg ac ar y radio wedi tynnu sylw at waith Barnardo's ym maes camfanteisio rhywiol ac yn rhoi enghreifftiau go iawn o sut mae Barnardo's yn gweddnewid bywydau ifanc.

Yn ystod 2009-10, adfywio delwedd Barnardo's oedd ffocws menter gymdeithasol a marchnata Barnardo's Cymru. Rydym wedi hyrwyddo ein gwaith gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ymhlith rhanddeiliaid allweddol ac rydym wedi datblygu strategaethau er mwyn ymestyn ein 'cyrhaeddiad' ledled Cymru.

'Mae sefydliadau allanol yn cyfeirio at ansawdd uchel ein gwasanaeth sy'n cael ei adlewyrchu gan ein deunyddiau proffesiynol.'

Rheolwr gwasanaeth,
Barnardo's Cymru

Ein pobl – staff a gwirfoddolwyr

Rheolwr Gwasanaeth Plant Teuluoedd Gwledig yn derbyn Gwobr Gofal Cymunedol ar ran y gwasanaeth

Ledled Cymru rydym yn cyflogi oddeutu 700 o staff yn ein gwasanaethau plant. Drwy'r Tîm Cefnogi Pobl, rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn recriwtio, yn cynefino, yn hyfforddi ac yn cefnogi'r bobl iawn yn briodol, ar yr un pryd â chadw safonau clir a chyson er mwyn rheoli ein pobl sy'n sicrhau eu diogelwch nhw ochr yn ochr â diogelwch ein defnyddwyr gwasanaeth bob amser. Llwyddodd y sefydliad i gadw ei Ddyfarniad Buddsoddwr mewn Pobl eleni.

Gwirfoddolwyr

Mae gan Barnardo's Cymru dros 800 o wirfoddolwyr. Roedd y ffigur hwn wedi codi 18 y cant yn ystod y flwyddyn.

Roedd ein pobl yn V-Linx yng Ngwasanaeth Cyswllt Teulu Sir Benfro ac yn ein siop yng Nghaerfyrddin wedi ennill gwobrau gwirfoddoli.

Heb gefnogaeth ein holl wirfoddolwyr, ni fyddai modd i ni ddarparu'r ystod o wasanaethau rydym yn eu darparu yng Nghymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld nifer ein gwirfoddolwyr yn tyfu'n aruthrol: yn ein gwasanaethau plant, dan 25 oed, dynion sy'n gwirfoddoli a gwirfoddolwyr anabl – mae'r rhain i gyd yn feysydd roeddem wedi'u targedu i'w tyfu ar ddechrau'r flwyddyn.

Cyfieithwyr ar y pryd yng Ngwasanaeth Stryd Neville ar ddiwrnod dathlu cyfieithwyr ar y pryd

I gefnogi Barnardo's Cymru drwy wirfoddoli, ewch i www.barnardos.org.uk/volunteering neu ffonio ein swyddfeydd yn:

Caerdydd (029 2049 3387), Castell-nedd (01639 620945) neu Wrecsam (01978 315131).

Ein busnes adwerthu

Mae'r adroddiad hwn yn dangos perfformiad ariannol adran adwerthu Barnardo's Cymru dros y flwyddyn ariannol 2009-10. Mae 'S3' yn golygu ardal Canolbarth/De Cymru ac mae 'N9' yn golygu Gogledd Cymru a Chilgwri.

Perfformiad ariannol – (£ sterling)

	Nwyddau a roddwyd	Rhoddion ymarferol	Masnachu Barnardo's cardiau ayb	Cyfanswm	Costau Masnachu Barnardo's	Costau siopau	Elw	Cyllideb
S3	1,526,066	23,386	100,692	1,650,144	-60,385	-1,253,908	335,851	336,289
N9	1,292,784	35,421	113,616	1,441,821	-68,146	-1,143,170	230,505	219,641
Cyfanswm	2,818,850	58,807	214,308	3,091,965	-128,531	-2,397,078	566,356	555,930

Twf busnes

	Rhoddwyd 2008-2009	Rhoddwyd 2009-2010	%	Rhoddion Ymarferol 2008-2009	Rhoddion Ymarferol 2009-2010	%	Masnachu Barnardo's 2008-2009	Masnachu Barnardo's 2009-2010	%
S3	1,416,630	1,526,117	8	19,432	23,386	20	92,517	100,641	9
N9	1,095,707	1,292,824	18	33,259	35,421	7	100,793	113,576	13
Cyfanswm	2,512,337	2,818,941	12	52,691	58,807	12	193,310	214,217	11

Llwyddiannau arbennig

Roedd elw net canghennau yng Nghanolbarth a De Cymru wedi codi o £323,021 i £335,851, cynnydd o bedwar y cant. Roedd elw net canghennau yng Ngogledd Cymru a Chilgwri wedi codi o £142,693 i £230,505, cynnydd o 62 y cant.

Dyma'r siopau gyda'r perfformiad gorau yng Nghymru:

- Aberystwyth ac Aberdâr; gydag elw net dros £50,000
- Pontypridd oedd y 'siop ddisgownt' orau yn y DU, gydag elw net o £41,268
- Albany Road oedd y siop orau yn y DU o ran Cymorth Rhodd.

Ein gweithgareddau codi arian

Yn 2009-10, roedd Barnardo's Cymru wedi mwynhau blwyddyn lwyddiannus o godi arian yng Nghymru ac rydym yn diolch i'r holl unigolion, ysgolion, mudiadau a gwirfoddolwyr a fu'n rhan o'r gwaith hwn. Roedd rhoddion i gefnogi ein gwaith wedi codi 26 y cant (£643k o'i gymharu â £508k yn 2008-09).

Roedd swyddogion codi arian gwirfoddol wedi cynyddu eu cyfraniad drwy 17 o Grwpiau Cynorthwywyr Barnardo's yn cynhyrchu £53,000. Roedd Grŵp Codi Arian Proffesiynol newydd wedi trefnu'r Ddawns Dewi Sant Fawreddog yn Abertawe gyda chefnogaeth gan yr enwog gyn athletwr Jamie Baulch.

Y prif ddigwyddiad codi arian yng Nghymru yn 2009-10 oedd Hanner Marathon Caerdydd, a oedd 42 y cant yn fwy eleni ac roedd y nifer uchaf posibl o redwyr wedi prynu eu lle yn y ras sef 11,000. Rydym yn estyn ein diolch i Gyngor Caerdydd a'r South Wales Echo, sydd wedi parhau i gefnogi'r digwyddiad yn wych. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cytuno i gefnogi'r Hanner Marathon am y tair blynedd nesaf. Ein hamcan yw cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan i 20,000 erbyn 2012. Lloyds TSB yw ein prif noddwr newydd ar gyfer 2010.

Tarwch olwg ar www. barnardos.org.uk/wales neu ffonio ein Canolfan Gofal Cefnogwyr ar 0845 7697967 i gael gwybod mwy am godi arian gyda ni neu am roi arian.

Cyllid Gwasanaethau Plant

Incwm a gynhyrchwyd gan Wasanaethau Plant 2009-10



Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd o ffynonellau statudol: £10,544,115
Cyfanswm cyfraniad Barnardo's: £3,011,642

Manylion cyswllt gwasanaethau plant

Ynys Môn

1. Gwasanaeth Teulu Gwledig Barnardo's
Canolfan Plant
Ffordd y Coleg, Lôn Talwrn
Llangefni, Gwynedd LL77 7LP
Ffôn: 01248 751194
Ffacs: 01248 125849
E-bost: ruralfamilyservice@barnardos.org.uk

Gwynedd

2. Caban Bach Barnardo's
Rhes Meirion, Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3AU
Ffôn: 01766 832546
Ffacs: 01766 832547
E-bost: caban.bach@barnardos.org.uk

3. Gwasanaeth Amser Ni Barnardo's
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon
Gwynedd LL55 1AB
Ffôn: 01286 675847
Ffacs: 01286 677269
E-bost: amserni@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/amserni

Conwy/Sir Ddinbych

4a. Gwasanaeth Cyfle Barnardo's: Chwarae a Hamdden
Swyddfeydd Llawr 1af
Neuadd Panton
Dinbych LL16 3TL
Ffôn: 01745 817216
Ffacs: 01745 817521
E-bost: cyfle@barnardos.org.uk

4b. Gwasanaeth Cyfle Barnardo's: Gadael Gofal
Gwasanaethau cymdeithasol
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
Clwyd LL18 3HP
Ffôn: 01824 712205
E-bost: cyfle@barnardos.org.uk

Sir y Fflint

5. Gwasanaethau Sir y Fflint Barnardo's: Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint
Canolfan Ieuenctid a Chymuned Penarlâg
Groomscroft
Penarlâg
Sir y Fflint CH5 3EL
Ffôn: 01244 539928
Ffacs: 01244 539495
E-bost: flintshire.youngcarers@barnardos.org.uk

Mae Teuluoedd yn Bwysig Sir y Fflint
The Old Baths
Ffordd yr Wyddgrug
Bwcle
Sir y Fflint
CH7 2JB
Ffôn: 01244 551246
Ffacs: 01244 551239
E-bost: familiesmatter@barnardos.org.uk

Wrecsam

6. Partneriaeth Compass Barnardo's: Cynllun Bondiau a Chyngor ynghylch Tai
Bryn Hyfryd
2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam LL11 1BU
Ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compasspartnership@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/compass

Tenantiaeth, Cymorth i Deuluoedd a Chyfarfodydd Grŵp Teulu
Bryn Hyfryd, 2 Ffordd Grosvenor, Wrecsam
LL11 1BU
Ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compasspartnership@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/compass

Powys

7a. Rhieni-ar-Waith Barnardo's
Ynys-y-Plant
Plantation Lane
Y Drenewydd
Powys SY16 1JH
Ffôn: 01686 617444
Ffacs: 01686 617440
E-bost: parent.works@barnardos.org.uk

7b. Teuluoedd @ Barnardo's – Gogledd a De – gan gynnwys Cyfarfodydd Grŵp Teulu a Gwasanaeth Cwnsela Face 2 Face

Teuluoedd @ Barnardo's – Gogledd
Uned 6, Parc Menter St Giles
Y Drenewydd
Powys
SY16 3AJ
Ffôn: 01686 622083
Ffacs: 01686 624122
E-bost: northpowysfamilies@barnardos.org.uk

Teuluoedd @ Barnardo's – De
Adeilad yr Emporiwm
Temple Street
Llandrindod
Powys LD1 5DL
Ffôn: 01597 829664
Ffacs: 01597 829668
E-bost: southpowysfamilies@barnardos.org.uk

Sir Benfro

8. Cyswllt Teulu Sir Benfro Barnardo's
3-5 Bush Street
Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6XB
Ffôn: 01646 687064
Ffacs: 01646 683033
E-bost: pembs.familylink@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/familylinkpembrokeshire

Sir Gaerfyrddin

9. Gwasanaethau Sir Gaerfyrddin Barnardo's: Cyswllt Teulu Sir Gaerfyrddin
33 Stryd Thomas
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3JE
Ffôn: 01554 775232
Ffacs: 01554 777991
E-bost: carmarthenshire.services@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/carmarthenshirefamilylinks

Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin
33 Stryd Thomas
Llanelli
Sir Gaerfyrddin SA15 3JE
Ffôn: 01554 775232
Ffacs: 01554 777991
E-bost: carmarthenshire.services@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/carmarthenshireyoungcarers

Abertawe

10. Mae Plant yn Bwysig Abertawe Barnardo's
13-15 Heol Cadifor, Penlan
Abertawe SA5 9AF
Ffôn: 01792 797289
Ffacs: 01792 797293
E-bost: swansea.cm@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/swanseachildrenmatter

11. Partneriaeth BAYS Barnardo's: Gadael Gofal
32-36 Stryd Fawr
Abertawe SA1 1LG
Ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Tai â Chymorth
32-36 Stryd Fawr
Abertawe SA1 1LG
Ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Digartrefedd Pobl Ifanc
32-36 Stryd Fawr
Abertawe SA1 1LG
Ffôn: 01792 455105
Ffacs: 01792 461064
E-bost: bayspartnership@barnardos.org.uk

Castell-nedd Port Talbot

12. Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Barnardo's: Rhieni'n Rhannu
19-20 Heol Llundain,
Castell-nedd Castell-nedd
Port Talbot SA11 1LE
Ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost: neath.ptpm@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/neathporttalbot

CHiP
19-20 Heol Llundain
Castell-nedd
Castell-nedd Port Talbot
SA11 1LE
Ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost: neath.ptpm@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/neathporttalbot

Cynnwys Teuluoedd
19-20 Heol Llundain
Castell-nedd
Castell-nedd Port Talbot
SA11 1LE
Ffôn: 01639 620771
Ffacs: 01639 631408
E-bost: neath.ptpm@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/neathporttalbot

Pen-y-bont ar Ogwr

13. Gwasanaeth Taith Barnardo's (Cymru Gyfan)
Davian House
Stad Ddiwydiannol
Village Farm, Y Pîl
Pen-y-Bont ar Ogwr
CF33 6BJ
Ffôn: 01656 749235
Ffacs: 01656 740039
E-bost: taith.service@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/taith

Bro Morgannwg

14b. Cyswllt Cymuned Barnardo's (Bro Morgannwg)
Uned 1 Cowbridge Court
58-62 Heol Gwenfo
Caerdydd
CF5 5BS
Ffôn: 029 2057 1910
Ffacs: 029 2056 9352
E-bost: community.links@barnardos.org.uk

Caerdydd

14b. Cyswllt Cymuned Barnardo's (Caerdydd)
Uned 1 Cowbridge Court
58-62 Heol Gwenfo
Caerdydd
CF5 5BS
Ffôn: 029 2057 1910
Ffacs: 029 2056 9352
E-bost: community.links@barnardos.org.uk

15. Gwasanaeth Mabwysiadu a Maethu Barnardo's Cymru (Cymru Gyfan)
Uned 1 Cowbridge Court
58-62 Heol Gwenfo
Caerdydd
CF5 5BS
Ffôn: 029 2057 1960
Ffacs: 029 2055 2428
E-bost: cymru.derwen@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/cymruadoptionandfostering

16. Gwasanaeth Teuluoedd Treláі Barnardo's
Canolfan Deulu Treláі
87 Grand Avenue
Treláі, Caerdydd CF5 4LE
Ffôn: 029 2057 7074
Ffacs: 029 2057 7080
E-bost: ely.family@barnardos.co.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/elyfamilies

17. Gwasanaeth Stryd Neville Barnardo's
7a Stryd Neville, Glan yr Afon
Caerdydd CF11 6LP
Ffôn: 029 2022 9585
Ffacs: 029 2037 3470
E-bost: nevillestreetservice@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/nss

18. Gwasanaeth Seraf Barnardo's (Cymru Gyfan)
46 Heol Marlborough, Y Rhath
Caerdydd CF23 5BX
Ffôn: 029 2049 1743
Ffacs: 029 2049 9684
E-bost: serafservice@barnardos.org.uk

19a. Partneriaeth Heol Marlborough Barnardo's: Teuluoedd Ifanc Caerdydd
46 Heol Marlborough
Y Rhath, Caerdydd CF23 5BX
Ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/marlboroughroad

Gwasanaeth Caterpillar Caerdydd a Bro Morgannwg
46 Heol Marlborough
Y Rhath, Caerdydd CF23 5BX
Ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/marlboroughroad

Tai â Chymorth i Bobl Ifanc Sengl Caerdydd
46 Heol Marlborough
Y Rhath, Caerdydd
CF23 5BX
Ffôn: 029 2049 7531
Ffacs: 029 2045 3083
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/marlboroughroad

Rhondda Cynon Taf

Partneriaeth RhCT Barnardo's: 20. Cylch Chwarae Glyncoch
58/60 Garth Avenue
Glyncoch, Pontypridd CF37 3AA
Ffôn: 01443 405805
Ffacs: 01443 405805
E-bost: glyncochplayzone@barnardos.org.uk

Merthyr Tudful

21. Partneriaeth Merthyr Barnardo's: Gwasanaeth 16+
56 Stryd Fawr, Pontmorlais
Merthyr Tudful CF47 8UN
Ffôn: 01685 379422
Ffacs: 01685 377258
E-bost: merthyr.partnership@barnardos.org.uk

Gofalwyr Ifanc
56 Stryd Fawr
Pontmorlais
Merthyr Tudful CF47 8UN
Ffôn: 01685 382422
Ffacs: 01685 377258
E-bost: merthyr.partnership@barnardos.org.uk

Y Blynyddoedd Cynnar a'r Gymuned
Caban 16 Ysgol Goetre
Rowan Way
Ystad y Gurnos
Merthyr Tudful
Ffôn: 01685 371993
Ffacs: 01685 722835
E-bost: merthyr.partnership@barnardos.org.uk

Dechrau'n Deg
Adeilad Ysgol Sul
Park Baptist
10th Avenue
Galon Uchaf
Merthyr Tudful
CF47 9TG
Ffôn: 01685 376521
E-bost: merthyr.partnership@barnardos.org.uk

Cefnogaeth i Deuluoedd
Ael-y-Bryn, 25 Spruce Street Grove
Ystad y Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9AU
Ffôn: 01685 725173
E-bost: merthyr.partnership@barnardos.org.uk

Caerffili

22a. Gwasanaethau Caerffili: Gofalwyr Ifanc Caerffili a Chasnewydd Barnardo's
59 Commercial Street
Rhisga NP11 6AW
Ffôn: 01633 612712
Ffacs: 01633 615924
E-bost: caerservices@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/caerphillyyoungcarers

Blaenau Gwent

23. Gwasanaeth Blaenau Gwent Barnardo's
Swyddfeydd y Llawr Gwaelod
Neuadd y Farchnad
Bethcar Street
Glynebwy, Blaenau Gwent
NP23 6HN
Ffôn: 01495 307950
Ffacs: 01495 352941
E-bost: blaenaugwentcommunitylinksservice@barnardos.org.uk

Torfaen

24. Teuluoedd yn Gyntaf Torfaen Barnardo's (mae wedi cau erbyn hyn ond roedd ar agor yn ystod y flwyddyn)
Unedau 2 a 3, Victoria House
Ystad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas
Blaenafon
Torfaen NP4 9RL
Ffôn: 01495 791422
Ffacs: 01495 792814
E-bost: familiesfirsttorfaen@barnardos.org.uk

Casnewydd

19b. Partneriaeth Heol Marlborough Barnardo's: Teuluoedd Ifanc Casnewydd
23 Caerleon Road
Casnewydd NP19 7BU
Ffôn: 01633 251192
Ffacs: 01633 251193
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/marlboroughroad

Gwasanaeth Out There Casnewydd
23 Caerleon Road
Casnewydd NP19 7BU
Ffôn: 01633 251192
Ffacs: 01633 251193
E-bost: mrp@barnardos.org.uk
Gwefan: www.barnardos.org.uk/marlboroughroad

Swyddfeydd Barnardo's Cymru

Swyddfa Genedlaethol Barnardo's Cymru
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2049 3387
Ffacs: 029 2048 9802
E-bost: cym.national@barnardos.org.uk

Swyddfa De Orllewin Cymru
Llawr 1af
4a Stryd y Frenhines
Castell-nedd SA11 1DL
Ffôn: 01639 620945
Ffacs: 01639 620941

Swyddfa Gogledd Cymru
Bryn Hyfryd
2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam LL11 1BU
Ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131

Cyfeiriadau siopau

Aberdâr
33 Commercial Street
Aberdâr
CF44 7RW
01685 878990

Aberdâr
Y Siop Lyfrau
49a Commercial Street
Aberdâr
CF44 7RW
01685 378489

Aberdaugleddau
61 Charles Street
Aberdaugleddau
SA73 2HA
01646 695191

Abertawe
32 Woodfield Street
Treforys
Abertawe SA6 8AB
01792 799418

Aberteifi
2/3 Stryd y Priordy
Aberteifi
SA43 1BU
01239 612159

Aberystwyth
18 Rhodfa'r Gogledd
Aberystwyth
SY23 2NF
01970 625352

Bae Colwyn
40 Ffordd yr Orsaf
Bae Colwyn
LL29 8BU
01492 534795

Bangor
298 Stryd Fawr
Bangor LL57 1UL
01248 362380

Bargoed
59 Hanbury Road
Bargoed CF81 8QX
01443 837136

Brynmawr
38 Beaufort Street
Brynmawr
NP23 4AB
01495 308867

Caerdydd
103 Albany Road
Caerdydd CF24 3LP
029 2048 8513

Caerfyrddin
31 Blue Street
Caerfyrddin
SA31 3LE
01267 234260

Caernarfon
42 Stryd Llyn
Caernarfon
LL55 2AB
01286 677625

Casnewydd
177 Upper Dock Street
Casnewydd
NP20 1DY
01633 364635

Castell-nedd
5 New Street
Castell-nedd
SA11 1RT
01639 641623

Glynebwy
Hen Neuadd y Farchnad
Bethcar Street
Glynebwy
NP23 6HG
01495 354526

Henfforddd
3/3a St Peters Road
Henfforddd
HR1 2LA
01432 370212

Hwlfforddd
34 Stryd Fawr
Hwlfforddd
SA61 2DA
01437 766727

Llandudno
15 Stryd Mostyn
Llandudno
LL30 2NL
01492 875972

Llanelli
11 Stepney Street
Llanelli SA15 3YB
01554 771216

Llangollen
15 Heol y Castell
Llangollen
LL20 8NY
01978 861410

Llanrwst
London House
Sgwâr Ancaster
Llanrwst LL26 0LD
01492 642751

Malpas
Uned 6, 389-413
Malpas Road
Casnewydd
NP20 6WB
01633 858830

Pontypridd
64 Stryd Taf
Pontypridd
CF37 4TD
01443 486550

Porthmadog
126 Stryd Fawr
Porthmadog
Gwynedd LL49 9NW
01766 513167

Prestatyn
143 Stryd Fawr
Prestatyn LL19 9AS
01745 857230

Rhosan ar Wy
6/7 Broad Street
Rhosan ar Wy
HR9 7EA
01989 762400

Wrecsam
5 Ffordd Rhos Ddu
Sgwâr y Frenhines
Wrecsam
LL11 1AT
01978 264572

Y Coed-duon
86 Stryd Fawr
Y Coed-duon
NP12 1AE
01495 229100

Y Drenewydd
7c Bear Lane
Y Drenewydd
SY16 2QZ
01686 622305

Y Fenni
6 Cross Street
Y Fenni
NP7 5EH
01873 856074

Y Rhyl
8 Wellington Road
Y Rhyl
LL18 1BG
01745 337069

Yr Wyddgrug
10a Stryd Newydd
Yr Wyddgrug
CH7 1NZ
01352 757447

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

www.barnardos.org.uk

Barnardo's Cymru
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2049 3387

rhowch gyda hyder

Mae Barnardo's yn glynu wrth yr Addewid Codi Arian a Chanllawiau'r Bwrdd Safonau Codi Arian.
Rhifau Cofrestru Elusen Barnardo's 216250 a SC037605.

13040dos10